**Y Pwyllgor Diwylliant CC-15-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

**Ymddiheuriadau**: Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Eilyddion:** dim

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Mae Dafydd Wigley yn derbyn cyllid gan Gyngor Llyfrau Cymru ac mae ei wraig yn ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru.
- Mae Rosemary Butler yn Gadeirydd bwrdd cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

**Sylwadau agoriadol**:

Cofnododd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o waith y Pwyllgor yn datblygu 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' a lawnsiwyd yn llwyddiannus yr wythnos flaenorol. Dywedodd hefyd y byddai'n neilltuo amser yn ystod wythnos yr Eisteddfod i drafod yr adroddiad ag unrhyw ymwelwyr a oedd â diddordeb. Gwahoddodd yr Aelodau i ymuno ag ef ym mhabell y Cynulliad ddydd Mawrth, Mercher a Gwener.

**Eitem 1: Trafodaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru**

Papur CC 15-02 (p1)

Cyflwynwyr: Gareth Davies, Cadeirydd Cyngor Chwaraeon Cymru

Huw Jones, Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyflwynodd Gareth Davies a Huw Jones y papur, gan dynnu sylw at y canlynol:-

- Mae'r Cyngor bellach hanner y ffordd trwy ei strategaeth 'Pobl Ifanc yn Gyntaf' ac yn symud ymlaen â'r gwaith
- Pedair blaenoriaeth y Cyngor yw:
- cael mwy i gymryd rhan mewn chwaraeon
- gwella cyfleusterau
- darparu gwybodaeth dechnegol a chyngor am chwaraeon
- codi safonau perfformiad.
- Yn ôl ffigurau y pen, Cymru yw'r genedl fwyaf llwyddiannus yn y byd ym maes athletau, a dylid gwneud mwy i ganu clodydd Cymru
- Mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniad i bob un o flaenoriaethau'r Cynulliad
- Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor edrych yn arbennig ar ragoriaeth a hynny yng ngoleuni Gemau'r Gymanwlad eleni

- Un mater allweddol i'r Cyngor yw dyfodol Athrofa Chwaraeon Cymru. Mae'r cyfleusterau yng Ngerddi Sophia bellach yn ddeng mlwydd ar hugain oed ac roedd cais gyda swyddogion ar hyn o bryd am gyllid ychwanegol (fel oedd wedi digwydd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) o £12.5m.

Wrth drafod, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cytunai'r Cyngor y gellid ystyried athletau, o ran llwyddiant, yn gamp genedlaethol Cymru. Roedd hynny'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn haws i unigolion ennill na thimau.
- Yn ôl yr amcangyfrif, 3/4m o bobl oedd yn defnyddio'r Athrofa. Roedd cyrff llywodraethu yn defnyddio oddeutu 36,000 o oriau ac unigolion oddeutu 16-18 o oriau yr wythnos i hyfforddi.
- Nid oedd digon o adnoddau i noddi pawb, ond roedd y Cyngor wedi dweud wrth gyrff llywodraethu y dylai lefel y cyfraniadau fod yr un fath i bawb.
- Er bod y Cyngor Chwaraeon yn gorff cenedlaethol, y mae hefyd yn cydweithio â phobl leol ar benderfyniadau lleol. Mae ganddo banel cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cenedlaethol, ond mae swyddfeydd lleol yn ystyried ceisiadau am gyllid loteri. Roedd Wrecsam, Gwynedd a Gorllewin Cymru wedi gwneud yn dda yn hynny o beth.
- O ran cysylltiadau â chyrff eraill, mae'r Cyngor yn cadeirio dau gyfarfod y flwyddyn â Phrif Swyddogion Hamdden Awdurdodau Lleol. Mae ganddo gysylltiadau cryf hefyd â Bwrdd Croeso Cymru, yn arbennig mewn perthynas â Chwpan Ryder. Roedd y Cyngor hefyd wedi elwa ar ei aelodaeth o Cymru'n Creu.
- Mae'r Cyngor yn ystyried dewisiadau ar gyfer darparu cyfleusterau unwaith y bydd y gwaith adnewyddu ar Erddi Sophia wedi cychwyn. Bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar sut y derbynnir yr arian. Gellid cau'r ganolfan yn gyfan gwbl, neu fesul darn. Byddai'r Cyngor yn troi at ei bartneriaid, yn arbennig yr awdurdodau lleol, am gymorth â darparu chwaraeon. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw waith yn dechrau ar yr Athrofa tan Ebrill 2004.
- Roedd ffigurau ar y niferoedd oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon i'w cael yn llyfrgell y Cynulliad.
- Mae 104 canolfan ragoriaeth mewn chwaraeon a 268 o ganolfannau datblygu chwaraeon ar lefel awdurdodau lleol
- Mae golff yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Roedd wedi derbyn £250,000 i gynyddu'r cyfleusterau, yn arbennig i ferched.
- Cynorthwyir dawnsio neuadd-ddawns trwy DanceSport.

Yn olaf, cytunodd y Pwyllgor i ddod ag adolygiad pum mlynedd y Cyngor Chwaraeon ymlaen fel y trafodwyd yn adroddiad y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog y dylai'r adroddiad interim fod ar gael mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 4 Rhagfyr; dylai'r adroddiad terfynol fod ar gael erbyn Ionawr neu Chwefror.

**Eitem 2: Adolygiad o Bolisi Chwaraeon**

Papur CC 15-02 (p2)

Wrth gyflwyno'r eitem hon, dywedodd y Cadeirydd y dylai'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad gael ei derbyn ym mhob un o'r pum cyfarfod a oedd wedi eu trefnu ar gyfer y tymor nesaf. Cytunodd y Pwyllgor a chytunodd hefyd y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol brynhawn 28 Tachwedd. Awgrymodd y Cadeirydd bedwar maes i'w hystyried:

- Gwersi i'w dysgu o Gemau'r Gymanwlad
- Y diffyg cyfleoedd i fenywod a merched
- Defnydd o adnoddau Amcan 1 a SportLot
- Blaenoriaethau ac adnoddau.

Cynigiodd aelodau feysydd eraill y gellid eu hystyried:

- Defnyddio gwirfoddolwyr
- Cyfleoedd i bobl h•n
- Darpariaeth pob awdurdod lleol gan ystyried y rhesymau am unrhyw wahaniaethau
- Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar chwaraeon ac adloniant
- Cyflwyniadau ar yr adroddiadau ar Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ac ar Iechyd a Chwaraeon
- Barn cymunedau.

Roedd aelodau'n bryderus ynghylch hyd arfaethedig yr adolygiad a chytunwyd y dylai ymestyn hyd Fawrth 2003. Nid oeddent yn sicr ychwaith beth roedd yr adolygiad yn ceisio ei gyflawni. Dywedodd y Cadeirydd mai'r thema waelodol oedd 'cynyddu'r gyfranogaeth mewn chwaraeon' ond byddai'n trefnu i bapur gael ei baratoi dros yr haf. Byddai hwnnw hefyd yn awgrymu'r trefniadau ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig. Awgrymwyd y dylai Aelodau ysgrifennu at y Cadeirydd neu at yr ysgrifenyddiaeth ynghylch syniadau ychwanegol ar yr adolygiad.

Yn olaf, oherwydd y penodiadau ymchwil newydd a fyddai'n cael eu gwneud yn ystod y gwyliau, cytunwyd nad oedd angen ymgynghorydd arbenigol ar gyfer yr adolygiad.

**Eitem 3: Blaenraglen Waith**

Papur CC 15-02 (p3)

Cyflwynodd y Cadeirydd y Flaenraglen Waith fras. Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Er bod yr aelodau wedi cytuno i ganolbwyntio ar yr adolygiad o Chwaraeon, roeddent yn teimlo hefyd ei bod yn bwysig i waith ddechrau ar adolygiad o ddiwylliant Eingl Gymreig. Galwyd hefyd am gyflwyniad ar effaith y cylch cyllideb presennol ar ddiwylliant.

Cynigiwyd rhai newidiadau hefyd:

- Symud y drafodaeth ar Stadiwm y Mileniwm ac ar gynigion yr Amgueddfa Genedlaethol ynghylch arddangos celfyddyd, y naill i 6 Tachwedd a'r llall i 23 Hydref.
- Dod â'r drafodaeth ar ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Loteri ymlaen i 23 Hydref
- Symud y drafodaeth ar ymateb y Gweinidog i 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' i 4 Rhagfyr
- Newid eitem 2 ar 18 Rhagfyr i Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

**<u>Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog</u>**

Papur CC 15-02 (p4)

Croesawai'r Pwyllgor y newyddion am y grant byrdymor o £360,000 i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol. Wrth ymateb i gwestiynau, dywedodd y Gweinidog:

- Byddai peth o'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheolwr marchnata. Roedd y torri blaenorol ar weithgareddau marchnata wedi cyfrannu at y gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr, er bod argyfwng clwy'r traed a'r genau a thywydd gwael hefyd wedi cyfrannu.
- Gofynnwyd i KPMG adrodd yn yr hydref a bryd hynny byddai dyfodol hirdymor yr Ardd yn cael ei asesu.
- Byddid yn edrych ar gynlluniau tebyg, fel prosiect Eden, rhag ofn bod gwersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog a'i swyddogion a manteisiodd ar y cyfle i ddatgan fod iddo ef a Delyth Evans fuddiant gan fod yr Ardd yn eu hetholaethau.

Cododd y materion hyn hefyd o adroddiad y Gweinidog:

- Cyhoeddodd y Gweinidog fod y llong a gafwyd ar safle theatr Casnewydd yn 25 metr o hyd ac o bosibl yn dyddio'n ôl i'r bymthegfed ganrif. Roedd swyddogion yn cydweithio'n agos â Chyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Bwrdeistref Casnewydd a CADW yngl•n â'i dyfodol.
- Llongyfarchodd y Gweinidog Deledu Agenda, Llanelli, ar gael dyfarniad o €500,000 oddi wrth gynllun EU MEDIA Plus ar gyfer cyfres wedi'i hanimeiddio o'r enw "Backpackers". Fe'i comisiynwyd gan RTE yn Iwerddon a chan S4C ac yn y pen draw caiff ei dybio i'w darlledu ar draws y byd.
- Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar ymweliad beirniaid cystadleuaeth Prifddinas Diwylliant Ewrop. Teimlai fod yr ymweliad â Chaerdydd wedi gwneud argraff ffafriol ar y beirniaid a'u bod wedi synnu at yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnig.
- Roedd yr adolygiad arfaethedig gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gyfle da i ailystyried cyfran Cymru o'r cyllid ac edrych ar ymarferoldeb cael un

dosbarthwr Loteri yn hytrach na'r pump presennol.
- Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Resource yn cael eu dadansoddi.
- Wrth ymateb i gwestiwn am ddarpariaeth mewn llyfrgelloedd i bobl â nam ar eu golwg, dywedodd y Gweinidog fod materion anabledd yn nodwedd mewn Safonau Llyfrgell.
- Adroddodd y Gweinidog hefyd ei bod yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch yr adroddiad dan y Siartr Ewropeaidd ar Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol.

**Eitem 5: G•yl Ffilmiau Cymru yn Efrog Newydd**

Papur CC 15-02 (p5)

Cyflwynydd: Chris Jones, Team Wales

Eglurodd Chris Jones mai gr•p bychan o Gymry alltud yw Team Wales sy'n trefnu digwyddiadau i dynnu mwy o sylw at Gymru dramor. Maent wedi croesawu tîm hwylio y 'Spirit of Cardiff' yn Efrog Newydd ac wedi cynorthwyo tîm Prif Weinidog y Cynulliad pan fu ar ymweliad ag America ar gyfer penwythnos G•yl Ddewi.

Cynhelir yr •yl arfaethedig tua diwedd 2003. Bu g•yl ffilmiau Gogledd Iwerddon yn llwyddiant mawr, ac felly hefyd y dangosiad o 'Solomon a Gaenor' yn Efrog Newydd.

Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Mae'n debygol mai gwaith newydd a gynhwysir yn yr •yl yn hytrach na gweithiau o'r gorffennol.
- Nod yr •yl fydd nid yn unig tynnu mwy o sylw at ddoniau perfformio Cymru ond hefyd bod yn farchnad i ffilmiau Cymru ac yn gyfle i ddatblygu partneriaethau a chysylltiadau.
- Caiff Cymru ei hyrwyddo fel lleoliad i ffilmiau yn ystod yr •yl.
- Dangosir ffilmiau wedi eu hanimeiddio o Gymru fel cydnabyddiaeth o'r cyfraniad a wnaeth Cymru yn y maes hwn, er enghraifft cart•n 'Superted'.
- Disgwylir i arian ar gyfer yr •yl, oddeutu $150 000, gael ei godi trwy nawdd preifat.
- Nid oes cysylltiad uniongyrchol ag agor Swyddfa Cymru yn Efrog Newydd. Bwriedir cynnal yr •yl yn annibynnol ar unrhyw ddyddiadau arwyddocaol.
- Gwahoddir perfformwyr Americanaidd sydd â chysylltiadau Cymreig i'r •yl, fel Anthony Hopkins a Robin Williams.
- Mae Team Wales yn trafod sut i dynnu gwyliau ffilm lleol i mewn â Sgrin.
- Byddai Dafydd Wigley yn ysgrifennu at Team Wales yngl•n â chael at gronfeydd data o bobl â chysylltiadau Cymreig.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Papur CC 14-02 (min)

Cymeradwywyd ag un newid. Eitem 4, bwled olaf, yn lle ‘creu fforwm celfyddydau diwydiannol’ rhoi ‘creu fforwm diwydiannau creadigol’. Roedd y Cadeirydd yn dymuno nodi bod mater y grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi ei ddwyn i sylw’r Pwyllgor Busnes ac y byddai’r mater yn cael ei godi hefyd ym Mhanel y Cadeiryddion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**